

Cwestiwn Mawr;

S E F,

Pa fodd y myn Duw gadw Dyn?

WEDI EI EGLURO MEWN

P R E G E T H,

Ar *PHIL.* II. 12, 13.

Yn yr hon y trinir amryw Bethau tra buddiol a llwyr angenrheidiol, er amlyu i'r Werinos fawr Ddoethineb a Gras Duw yng GHRIST IESU, yn Iechydwríaeth Dyn, yn ol ei Arfaeth dragwyddol ei hun, er cyn yr Oes oedd.

Cyfodwch y Rhwystr o Ffordd fy Mhobl. Efay lvii. 14.
—Dangos i Etifeddion yr Addewid Ddianwadalwch ei Gyngor. Heb. vi. 17.

Gan *E. GRIFFITHS, G. E.*

*CAERFYRDDIN,
ARGRAFFWYD GAN I. ROSS. 1785.*

H Y M N.

I.

DEFFRO a chyfod enaid trist,
Clyw hyfryd lais Efengyl Crist;
Llais 'wyllys da, a chariad llawn;
Llais Addewidion gwerthfawr iawn.

II.

Concwerwyd angau drwg a'r ddraig,
Trwy adgyfodiad Hâd y wraig;
Caethiwoedd y caethiwed mawr,
A'i ddoniau ddaeth i ddynion lawr.

III.

Trwy hwn y daeth y fendith wiw,
Inewid gyflwr ddynol-ryw;
Iuddewon a Chenhedloedd lu,
A aeth trwy Grifft i'r nefoedd fry.


DUW A'N BENEDITHO NISIANA GYD,
I'N DWYN NI ATTO E AS FRYD;
CASAWN, GADAWN, EIS BEJAU MWY,
Gael bod yn ddedwydd gyd â nhwy.

V.

Cawn yna foli Duw a'r Oen,
Yn rhydd o'n bai, yn rhydd o boen;
Ar dynnon dannaau am y dydd
Y gwnaed ein rhwymau oll yn rhydd.

VI.

I'r Hwn a'n carodd ni yn rhad;
I'r Hwn a'n golchodd yn ei waed;
I'r Hwn a'n gwnaeth o farw'n fyw,
Boed clod a mawl, a melus yw.

AT

AT Y

DARLLEN Y DD.

FEWDDYNUA'R Awdwyr, gyd â phob gofnyng-eiddrydd ac Ewyllys da, gyflwyno y Traethbawd bren i ystyriaeth ddifrifol pob enaid a chwennycho fod yn gadwedig, ac yn ambeus yng-bylch y ffordd.

Dymuniff, befyd, i bob proffeswr, o bob enw a barn, bwyso yng Ngloriannau'r Cysegr, y petbau a osodwyd yma o'i flaen ef, ac os gwel yma ddim yn wrthwyneb i'r gwirionedd, dadguddied bynni mewn cariad, a'r Awdwyr a'i dderbyn yn ddiolchgar.

Yn neillduol, dymuniff ar bobl ei ofal ystyried yn ddwys, pa mor ofnadwy ydyw meddwl i un o honynnt fod yn debyg o fethu caffael iechydwriaeth yn y diwedd.

Am bynni gobeithio, y bydd iddynt bwy wrando,
A 2 cofio,

cofio, ystyried, a gwneuthur Cyngor yr Apostol yn y testyn, yn enwedig am fod y matter o gymaint pwys a chanlyniad, a bod Duw ei bun yn addaw gweithio ynibynt a chydâ bwynt befyd byd y diwedd.

Os caiff un ryw enaid fudd oddi wrth byn, trwy ei ddwyn i'r iawn; neu ei gadarnbau ar y iawn; neu gefnogaeth i gadw yn y ffordd, trwy sicrbau iddo na bydd ei lafur ef ddim yn ofer yn yr Arglwydd, rhoed y clod i Dduw yr bŵn a'i piau, a chofied finnau yn ei weddi.

Ersyniaf ar Dduw i gynnal ei achos, ac arddel ei wirionedd, er lles dynol-ryw, ac er adeiladaeth a chysur yr Eglwys Gristianogol yn y byd, yr byn yw tær weddi a gwir ddymuniad,

Eich ufudd Was yn Efengyl CRIST,

E. G.

P R E-

P R E G E T H,

Ar Phil. II. 12, 13.

Am hynny, fy anwylyd, megis pob amser yr usudd-basoch, nid fel yn fy ngwydd yn unig, eithr yr awr hon yn fwy o lawer yn fy absen, gweith-iwch allan eich iechyd-wriaeth eich hunain gyd ag ofn a dychryn; canys Duw sydd yn gweithio ynnoch ewyllysto a gweithredu o'i ewyllys da ef.

***** MA ni gawn fod St. *Paul* yn canmawl y *Philipiaid* am eu hufudd-dod i'w gyng-horion ef gynt, eithr yn awr ac efe yng-harchar yn achos y gwirionedd adrodd-odd efe iddynt, y mae ese yn eu cyffroi, ar ystyr-iaeth hyn, i ymeginio yn ddiwyd iawn i weithio allan eu iechyd-wriaeth eu hunain, mewn pryd, gyd â mawr ofal, trwy ofn a dychryn methu yn y diwedd mewn un modd.

Iechyd-wriaeth yw pob math o waredigaeth rhag drwg, neu o glefyd. Eithr iechyd-wriaeth ysbrydol a feddylir yma, sef, llwyr waredigaeth oddi wrth bechod, ei glwyfau a'i gosp ar gorff ac enaid yn dragwydd. — “O Dduw y mae pob math o iechyd-wriaeth yn dyfod i ddyn. O ffynnon ei ras ef y tarddodd y dyfroedd bywiol hyn, sef, dyfr-eedd iechyd-wriaeth.” *Esa.* xii. 2, 3. “A Christ, y Cyf-

y Cyfryngwr, yw y bibell trwy yr hon y deuant i ni.” *Ioan* vii. 37, 38.

Efe o’i wirfodd a gyd-syniodd â’i Dad i gymmeryd y gwaith angenrheidiol arno o anrhydeddu deddf, natur, neu gyfraith diniweidrwydd, a dioddef cosy troseddiad o honi, yr hyn hefyd a wnaeth efe yn ein nattur a’n byd ni, gan uffuddhau hyd angau, ie, angau’r groes. *Adn.* 4—8.

A chwedi ei berffeithio trwy ddioddefiadau ef a wnaethpwyd yn Awdwt iechydwriaeth dragwyddol i’r rhai oll a uffudhant iddo. *Heb.* ii. 10. a’r v. 9. Ac nid oes iechydwriaeth yn neb arall; canys, efe yn unig a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn Ddoethineb, ac yn Gyflawnder, ac yn Sancteiddrwydd, ac yn Brynedigaeth. i *Cor.* i. 30.

Dyma Gariad anrhaethawerl Pwy allasai ddisgwyl am y fath beth ac iechydwriaeth i’r dyn syrthiedig, a dorrodd gyfraith hawdd ej chadw, trwy unffordd, nag ar neb ammodau pwy bynnag? Neb yn y nef nag ar y ddaear, ond Duw ei hun.—Pe na fynasai efe ddangos trugaredd i’r dyn o’i rydd ewyllys a’i ragorfraint ei hun, nid oedd neb, meddaf, yn y nef nag ar y ddaear, a allai gynnig ei gymhell, llawer llai ei rwymo ef, i wneuthur hynny. Y canlyniad yw, mae o rydd ras a chariad Duw y mae iechyd-wriaeth dyn.

“ Efe o’i ewyllys da a anfonodd ei Fab, ei anwyl a’i unig anedig Fab, i geisio a chadw yr hyn a gollwyd.” *Mat.* xviii. 11. Efe a bennodd amser ei anfoniad i’r byd, ynghyd â’i waith *llafurus a dioddefus*, a chwbl o *drefn* ac ammodau ein prynedigaeth o’r pen bwy-gilydd. — “ Pan ddaeth cyflawnder yr amser i ben, Duw a anfododd ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ej wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem ni y mabwysiad, trwy ei *dderbyn ef*. Cydmara *Gal.* iv. 4, 5. a *Ioan* i. 12, 13.

Ond a ellir dim meddwl i Dduw, er hynny,

addo
ryw
wyn
new
Y
peth
ei re
dy l
cwb
fud
fyd
wne
10.
ei b
C
pw
Iav
fel
y r
hun
phe
fod
aw
per
rhy
wi
yde
ni
P
en
m
be
a
dy
de
g
o

addo iddo ei hun, yn ei gyngor a'i feddwl ei *hun*,
ryw *elw*, *anrhydedd*, a gogoniant *chwanebol* at ei
wynfyd dwyfol ei hunan, oddi wrth u fudd-dod
newydd *dynol-ryw*: oddangos trugaredd iddynt?

Y mae hynny yn amhosibl, enaid, yn natur
pethau. Os cyfawn y fyddi, pa beth yr ydwyt yn
ei roddi iddo ef? neu, pa beth y mae efe yn cael ar
dy law di? *Job xxxv. 6, 7.* — Gwedi y gwneloch y
cwbl oll a'r orchymwynwyd i ti, gwas gwael ac an-
fuddiol *iddo ef*, er nid felly i ti dy *hun* ac eraill, y
fyddit wedi'r cwbl, canys yr hyn a ddylesit ei
wneuthur a wnaethost. — Caethwas wyt: *Luc xvii.*
10. Am hynny os gwobr a gei, gwobr o ras a raid
ei bod hi.

Crist yw ein Cyfawnder a'n Nerth ni yn ol ap-
pwyntment y Tad nefol. Hwn a osododd Duw yn
Iawn, neu'n Gymmod trwy *ffydd* yn ei waed ef
fel y derbyniem ni faddeuant pechodau! Yn awr
y mae Duw yng *Ghrist* yn cymmodi y bydag ef ei
hun, heb gyfrif iddynt hwy eu pechodau. Gor-
phenodd Crist ei *boenus* waith ar ben *Calfaria*. Cy-
fododd o'r bedd i'n cyfawnhau. Y mae efe yn
awr yn y nef yn eiriol drosom. Oddi yno y daw,
pen ychydig, yn dra ogoneddus, i roddi perffaith
rhyddhad i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl ef er iechyd-
wriaeth.

Yn awr, tydi a ddywedi, os yw gwaith ein iech-
ydwriaeth ni ar ben, p'am y dywedit etto wrthym
ni, am weithio allan ein iechydwriaeth ein hunain?
Pwy gysondeb sydd yn hyn? Y cysondeb mwyaf
enaid. — Cofia di, a chadw yn dy gof yn waftad;
mai Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Crist, o'i
ben *arglwyddiaeth rasol* yn ol cyngor ei feddwl ei hun,
a drefnodd ffordd iechydwriaeth dyn. Ac ni wyddai
dyn nag angel, ac ni wyr chwaith, un mymryn o
ddirgel gyngor ac arfaeth Duw, ond yn brin a ddat-
guddiodd efe iddynt. Y mae'r dadguddiad a ryng-
odd bodd iddo ef roddi i ni am y matter hwn yn

A 4. dangos

dangos mai ar *ammodau* doeth a da, y trefnodd efe i ddyn pechadurus i gaet diangc o'i drueni a chyrraedd bywyd tragicwyddol. Yr hyn ni allai y dyn ei wneuthur o herwydd gwendid ei gnawd a phurdeb y gyfraith, medd yr Apostol, *Duw* a'i gosododd ar ei Fab. *Rbuf.* viii. 3. Crist a dyllia o flaen ei Dad yng wydd dynion, iddo ef gwpla ei waith. *Ioan* xvii. 4. Y mae'r Tad yn tyffio iddo gael ei foddloni, trwy ei adgyfodi ef oddi wrth y meirw. Ac nid oedd bosibl ei attal ef gantho. *Act.* ii. 24. Pwy foddy hynny? Am iddo *gwpla* ei waith ar y ddaear. Efe y *Cyflawn*, yr Oen diffeius a difrycheulyd, o'i *wir-fodd* a roddeis ei hun drosom ni rai anghyflawn, fel y dygai ni at Dduw. *Edr.* i *Pedr* iii. 18.

Ond etto, y mae'r ysgrythur-lân, os gwrandawn ni arni, yn mynegu yn oleu i fod rhyw bethau yn ofynol oddi wrth bechaduriaid, a saint hefyd, y rhai a elwir yn gymmwys *ammodau'r Addewid*. *Eph.* ii. 12. Nid yw *wiw* i ni geisio gwingad yn erbyn y symbylau, a cheisio ystwytho geiriau Duw at sesur ein rhefymmau cnawdol, a'n dychymygion ofer ni: trech yw efe. Gwell yw ymostwng mewn pryd i dderbyn cardod tra cnigir hi, a'n bywyd ar ammodau'r Brenin.

Y peth a ofyn yr Arglwydd ymhob man yn ei air oddi wrth *bechadur* annychweledig, yw, credu ac edifarhau, megis y gwnaeth y *Ninifeaid*. *Jona* iii. 5. Dyma fwm pregethau *Ioan*. *Act.* xix. 4. a phregethau Crist, Ediferhewch a chredwch yr Efengyl. *Marc* i. 14, 15. Hyn oedd commissiwn Crist i'w apostolion. *Luc* xxiv. 47. a hyn a wnaethant yn ffyddlon trwy gydol eu gyrsfa. Darllen llyfr yr *Actau*, tyred a gwel.

Heb ffydd yng Nghrist, hynny yw, credu mai efe yw Mab Duw a Iachawdwr y byd, ac *ymddiried* iddo am ein cadw, nid oes lun i neb ddisgwyl cael lles oddi wrtho. *Ioan* viii. 24. "Oni chredwch chwi mai myfi yw efe, y Messia, Iachawdwr dynion,

ion, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau." Edrych 2 Tim. i. 12. Rhoddodd *Paul* ei enaid i Grift. Heb edifeirwch, yntau, nid oes maddeuant. Gadael pechod, a throi at Dduw o'r galon, yw edifeirwch. Y mae tristwch lawer yn cyd-fyned âg ef, ond nid hynny yw edifeirwch. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei fellyliau, a dychweled at yr Arglwydd, medd *Esay*, dyna ef feirwch; yna efe a gymmer d.ugaredd arno, ac a arbed yn helaeth. *Esay* lv. 7. Edifarha gan hynny, O bechadur, fel y diléer dy bechodau. *Aet.* iii. 19. Oni edifarhâi di, diammau y collir di yn dragwydd, fe'th ddemnir di yn oes oesoedd.

Dychwel gan hynny, a bydd syw; pa ham, O enaid, y byddi farw; Iē, pa ham y byddi farw, a Duw yn tyngn mai ei Ewyllys ef yw i ti fyw. *Ezec.* xxxiii. 10, 11.

Gwrando ar ei lais; y mae efe'n curo wrth dy ddrws di, a phardwn rhad i ti yn ei law. Gollwng ef i mewn, Oh, gollwng ef i mewn. Dywed, tyred i mewn, Fendigedig yr Arglwydd.

Na choela Satan a'th chwant dy hun os pledant yn groch, na elli ddim! P'am na elli di, pe mynnit, mwy nag eraill? Os dywedi wrthyf, na elli ddim o honot dy hun. Beth a eill un dyn o hono ei hun, attolwg? A oes gan ddyn ryw beth o hono ei hun? Beth yw hwnnw? A wyt ti yn barnu i Dduw roddi i ti *allu i bech* yn ei erbyn ef, yr hyn *ni fynnai*, yr hyn y mae efe yn ei *wahardd*, ac am yr hyn y *cospa* efe di dros byth yn usfern, oni edifarhâi di mewn pryd; ac na roddodd efe i ti allu troi atto, gwella dy fuchedd, ac uffuddhau iddo; yr hyn, medd efe, os coelir ef, gw gwir ewyllys ei galon.

2 *Pedr* iii. 9, &c.

I wirio hynny, onid yw efe'n gorchymyn i bob dyn ym mhob man edifarhau? yn rhoddi amser i edifarhau? yn dy *Iwytho* di â'i ddaioni i'th dywys i edifeirwch? ac onid yw efe wedi rhoddi ei *Air* a'i *Yspryd*, i'th gyfarwyddo a'th *nerthu* i hynny? Ed-

rychwch *Act. xvii. 30.* *Dat. ii. 21.* *Rbuf. ii. 3, 4.*
Diar. i. 22, 23.

Yn awr, beth a fynnit i Dduw wneuthur yn rhagor nag a wnaeth efe? a fynnit ti i Grifft edifaru yn dy le di? y mae hynny yn ammholibl; — a phe byddai yn bosibl, ni wnaef ddim o'th dro di, mwy nag i'th frawd gymmeryd physygwriaeth yn dy le, tu ag at dy well di.—Nid felly, beth yntau enaid? Gweithio ynof f'r ewyllyfio a'r gweithredu, fel y mae'r testyn yn dywedyd. O enaid truan, os felly yr wyt ti yn deall y geiriau hyn a'u·bath, yr ydwyt mewn mawr berygl o wneuthur cam a Duw, ac a'th enaid dy hun. Canys, pwy raid dywedyd wrth y *Philippiaid* am weithio allan eu iechydwrriaeth eu hunain trwy ofn a dychrym, os oedd Duw yn *ddi-
gyfrwng* wedi gweithio, neu i *weithio* ynthynt ewyllylio a gweithredu; Beth a allafai fod yn fyr ynthynt, pan yr oedd yr ewyllyfio a'r gweithredu yn barod eisoes?

Ond os deallir fod yn rhaid iddynt arfer y *cyf-
ryngau*, neu'r moddion appwyntiedig, a'r *ychydig
narth* a roed iddynt yn barod, gan addo ychwaneg, o ddilyn o'i gyngor ef; yna y mae'r cwbl yn oleu, *yn gyffon* ac yn *iachus*. *Mat. xxv. 29.* Ac yn y goleu hyn, y cymmerit ac y deallir y geiriau hyn, gan bawb difinyddion *iachus* a dysgedig a'r a welais i ym mhob oes. *Gwel Pool, Henry, Burkit, Watts, a
Dedridge*, ar y lle: — i adael heibio llawer eraill, llai adnabyddus i'r *cyffredin*,

Y gwirionedd yw, enaid anwyl, i fod Duw yn gweithio'r ewyllyfio a'r gweithredu mewn dyn trwy amryw ffyrdd: niesig,

Yn gyntaf, Trwy roddi iddo alluoedd enaid i ewyllyfio a gweithredu, fel y mae profiad *anwreth-
wynebol* yn dangos.

Yn ail, Trwy gynnal y rhai'n mewn grym i weithredu; er i'r dyn eu fforsfettu lawer gwaith, fel *Nebucodonosor*, *Dan. iv. 33.* ac eraill.

Yn

Yn drydydd, Trwy osod pyngciau mawrion crefydd mewn goleu eglur o flaen y dyn,—a'r canlyniad, o ddewis y da a gwrthod y drwg, yn y byd hwn a'r byd nesaf. Hyn a wna Duw lawer ffordd a modd. *Gwel pa foddy y dywedir i'r Arglwydd ddychwelyd calon pobl Israel atto ei hun, yn achos Baal, yn nyddiau Elias.* Edrych i Bren. xviii. 36, 39. Ac fel hyn yr hudwyd ein rhieni cyntaf i ewyllysfio a gwneuthur drwg, er yr holl alluoedd mawrion a ddywedir eu bod yn berchen arnynt. Ac onid fel hyn y mae i ni ddeall y modd y mae'r ysbryd drwg yn gweithio ym mhllant anufudd-dod? *Eph. ii. 2.* Ai nid trwy weithio ar y chwant naturiol a blannodd Duw yn y dyn, *at Hapusfrwydd*, gan ei demptio i ymgais am dano trwy ffrydd gwaharddedig? Bydded i brofiad cyffredin ateb drosof. Cydmara *Mat. iv. 1—ii. a i Ioan ii. 16, 17.* Arwain hyn ni at,

Y pedwarydd ffordd sydd gan Dduw i weithio, ewyllysfio, a gweithredu yn y dyn, sef trwy ei Ysbryd. Rhaid ein geni ni o'r Ysbryd yn gystal a'r Gair. Y mae'r Gair yn waftad gennym; ond y mae'r Ysbryd, fel y gwynt, yn myned ac yn dyfod yn ol ewyllys Duw. Pan y del, efe a argyhoedda'r byd o bechod, gan gymhwysa a dirwasgu gwirioneddau Duw ar gydwybod y dyn. Ac ni âd ef heibio weithredu ar feddyliau dynion, nes *llwyddo*, neu gael *hollol ball* ganthynt.

Ond y mae dynion anystyriol, anufudd, cyn-dyn a gwrthnyfig, ym mhob oes, yn gwrthwynebu'r Ysbryd Glân, fel yr *Iuddewon* gynt. *Act. vii. 51.*

Ac nid y fath hyn o ddynion yn *unig* sydd yn y perygl hwn, eithr y rhai hynny hefyd a sancteiddiwyd ganho mewn *mejur mawr*. Am hynny, y mae efe, trwy'r Apostolion yn rhybuddio *etholedigion* Duw, na thrifthaent ac na ddiffoddent mo hono. *Eph. iv. 30.* *i Thes. v. 19.* *Heb. vi. 4.*—*8. a x. 28, 29.* Ai geiriau gweigion, ofer, disail, ac *afreidiol*, yw'r 'Sgrythurau hyn?

Tro'r

Tro'r cwestiwn yn dy feddwl, a chais ateb cymwys iddo o flaen Duw. Ié, neu nagé, a raid i'th ateb fod. Os dywedi, *ie*, yna'r wyt yn gosod ffoli-neb yn erbyn yr Ysbryd, trwy roddi rhybuddion *di-achos*. Ond os dywedi, *nagé*, eithr llwyr angen-rheidiol oeddent i bawb: dyna'r gwir; ac ystyria di y canlyniad o hono. Y canlyniad yw, fod yr Ys-pryd Glân yn gweithredu yn rymmus ar y dyn yn ol ei *nattur*, ag *arfaeth* Duw, dros *amser*, sef, hyd oni b'o iddo gael ei wrthwynebu, ei fogi, a'i *lwyr withod*. Y mae efe yn cynnig i bob dyn dros *amser*, a gwyn fyd yr enaid a dderbynio y cynnig tro caffo.

A ni yn gwybod hyn, yr y'm yn perswadio dynion, megis pe byddai Duw yn deis y arnoch, trwy ddom ni; yr y'm yn erfyn dros Crist, cymmoder chwi â Duw, trwy *gyd-synia* â'i Ysbryd yn gweithio ar eich meddwl, gan eich cynhyrfu i'r hyn sydd dda. —O Dduw mae hynny gyd.

Na ddisgwyl rhagor, rhag colli dy enaid, a chwyno yn rhy ddiweddar yn y flammau. Oh! na wrandawfwn ar lais fy athrawon, gan dderbyn a ddefnyddio eu cyngorion iachus hwynt; yna ni ddaethwn byth i'r lle poenus hwn. Ystyria ateb *Abraham* yn y ddammeg. *Luc xvi. 29, 30, 31.*

Ystyria ymhellach, fod Crist yn dywedyd wrth yr *Iuddewon*, Gwyr *Ninife* a godant i fynu yn y *FARN*, gyd â'r geashedaeth hon, ac a'i condemnant hi: pa ham? Am iddynt gredu ac edifarhau wrth bregeth *Jonas*; ac wele, un mwy na *Jonas* yma, eb efe. *Luc xi. 32.* Yn awr yr wyl finnau yn gofyn i ti o *brysur*, pa fodd y bu hyn? A oedd *Jonas* yn well pregethwr na Christ? neu, a oedd mwy o effaith yn cyd-fyned âg ef na Christ? Onid trwy Ysbryd Crist yr oedd y prophwydi gynt yn llefaru? edrych i *Pedr i. 11.* A rodde Crist ei Ysbryd i gyd-weithio â *Jonas*, i greu ffydd ac edifeirwch yn y *Ninifeaid*, a'i attal ef oddi wrth ei wrandawyr ei hun?

hun? Os felly y bu, yr wyf yn gofyn, pa fodd y rhyddheir yr Iesu oddi wrth *ragrith*, pan yr oedd yn wylo uwch ben lliaws o bechaduriaid angrhediniol ac anedifeiriol, ac yn *dweud* yn gyhoeddus, y *mynnaf-ent* hwy? Oni allasai'r *Iuddewon* ateb, pe gwnaethit ti *ynom ni* yr hyn a wnaethost yn y *Ninifeaid*, nin-nau a fuasem yn gadwedig megis hwythau; Ond, am na's gwnaethost, nid yw dy ddagrau ond dagrâu rhagrith, a'th eiriau ond geiriau rhagrith.

Os dywedi, nad oedd efe tan rwymau i neb, y gallai wneuthur fel y mynnai a'r eiddo ei hun. Gwir iawn, nid all fod dim yn wirach. Etto, cofia, fod yr Iesu yn *rbwym* i ddweud y *gwir*, ag ym-ddwyn ar bob achos yn *gyttunol* a'r gwirionedd.

Y canlyniad yw, i'r *Ninifeaid* *yfyrried* a chredu pregeth *Jonas*, ac felly edifarhau, yr hyn ni wnaeth yr *Iuddewon*. Ac o herwydd hyn, y mae Crist yn dannod y *Ninifeaid* yn *gyfawn* iddynt, a'i *gyfawn-der* yntef yn eu *cospi*, yn aros yn oleu i bob *deall*, ac yn golyn llosgedig yn eu cydwybodau hwyntau yn dragwydd. Y mae ffydd yn dyfod trwy glywed, *tyflio'r gwirionedd* a'i *yfyrried*. Cydmar. *Rhus.* x. 17, a *Ezec.* xviii. 28. Rhydd Duw ei Ysbryd i'r rhai a'i ceisio, ac a ufuddhânt iddo. *Luc.* xi. 13, ac *Aet.* v. 32. A thrwy *yfyrried* geiriau a daioni Duw i ni, y gweithir *ynom* edifeirwch. A chan *yfyrried* hynny, efe (sef *Pedr*) a aeth allan ac a wylodd yn chwerw dosta. *Marc.* xiv. 72. Am hynny, fel hyn y dywed yr Arglwydd, " *Yfyrriwch* eich ffyrdd." *Hag.* i. 7. Oh, na baent ddoethion, medd Duw, na ddeallent hyn, nad yfyrrient eu diwedd! *Deut.* xxxii. 29. Gwel *Ezec.* xviii. 28.

Mi appeliaf at dy brofiad di, O ddyn annuwiol a *di-wedi*: Oni phrofaist ar droion ryw gynhurfiadau yn dy feddwl i ddymuno gwella dy fuchedd a'th gyflwr, rhag it' farw yn dy bechod? Do, meddi,

meddi, a mynch y parodd fy nghydwybod i mi ddolur, ac ni chefais lonydd nes i mi ddiwygio llawer, &c. Wele, wrth hyn, tydi a ddechreuaist dy daith i'r nef, ti redaist yn dda, beth a'th rwyftrodd di? beth a wanhaodd dy ddwylaw di rhag gweithio allan dy iechydwriaeth? Ofn a'm cymmerodd, wrth glywed un yn dywedyd, mai cnawd oedd y cwbl, mai cydwybod anianol oedd yn cynhyrfa ynof, ag nid gwaith Ysbryd Duw oedd arnaf. — Hyn a'm gwanhaodd, a minnau aymollyngais gyd a'r ffrwd. Yn enwedig, wedi i mi glywed fod Duw yn gweithio, ewyllycio, a gweithredu yn ei *bobl ef* yn ddiwyfrwng ac yn *anwrthwynebol*. Minnau a ddywedais ynof fy hun, mi a eisteddai i lawr, a phlethaf fy nwylaw i gysgu, fe allai y daw efe i'm dyhuno, ac oni ddaw. —

Y mae achos i ofni fod miloedd wedi myned i uffern trwy'r un moddion. Bûm fy hun ar y ffordd unwaith. Diolchaf i Dduw am feddyliau gwell, mwy teilwng o Iesu Crist a'i Efengyl; ac o'm dyledswydd fy hun, fel pechadur cyfrifol i Dduw, am fy holl ymddugiad yn y byd, yn enwedig at ei Fab ef.

Cofia dithau, enaid, fod pob rhodd ddaionus, a phob *cynhyrfiad* at ddaioni, ac i ymadael â'r drwg, wedi dyfod oddi *wrth Dduw*, dy Dad nefol, yr hwn sydd yn *gweithio ynnot* feddwl dychwelyd i dŷ dy Dad. Nag ofna, eithr cyfod, a thyred, y mae efe yn dy alw adref.

Ond, beth os nad wyl etholedig? meddi. Y mae llawer math o etholedigion yn y Bibl yn cael. son am danynt.—Rhai i fwyddau, a llaweroedd i freintiau;—a'r rhai sanctaidd i fywyd tragicwyddol. A pheth os darfu i Dduw, o herwydd rhyw rhefymmau da, na allwn ni mo'i *dirnad*, pe mynegid hwy i ni, *ethol*

ethol a sicrhau Iechydwriaeth rhyw bersonau neillduol
ym mhob oes; beth yw hynny i'r lleill o'r byd? A
rwystr a hynny i ti gael Iechydwriaeth trwy Iesu
Grist, yn ol addewid Duw yn yr Efengyl?

Ystyria yn bwyllog, a ydyw ein Creawdwr, trwy
 stofi ar *rai o'i greaduriaid ryw ffafri neillduol mewn*
ffordd ddeithr, yn caead eraill allan o'i ffafri trwy
ffordd gynnefin? Nid wyf yn tybied.

Am esampl. A rwystr a gwaith Duw yn dwyn
Enoc ac Elias i'r nefoedd, heb brofi marwolaeth, i'r
ffyddloniaid eraill, gael yr un faint, er nid yn yr
un modd? Neu, a ydoedd *Abram i fod yn Dad*
i'r Meflia, yn fendiff i'r byd, ac yn batrwn i'r ffydd-
*loniaid, yn attal *Melchisedec*, a *Job* a'i gyfeillion,*
ynghyd â llawer eraill, i foddio Duw a bod yn
ddedwyd? Neu, a ydoedd rhoddi pump talent i
un gwas, yn rhwystr i'r llall i ddefnyddio ei ddwy,
a boddio ei Feistr?

Y mae yn eglur, meddi, nad oedd y naill na'r
 llall yn rhwystr. Y mae yn wir. Ond ystyria, etto,
 beth a ddaeth o'r gwas a ymresymodd felly? oni
 chospwyd ef yn gyflawn am ei *ddrwg dyb*, a'i *enllib*,
 a'i *ddiogi?* Edr. *Mat. xxv. 14—30.*

A ydyw derchafu un dyn i'r deyrn-gadair yn di-
 fuddio yr holl bobl eraill o'u bywyd a'u cyfuron?

Yn un ffunud, nid yw y Tad nefol yn esgeu-
 luso ei blant trwy ei waith ef yn gwneud rhyw ra-
 goriaeth rhyngddynt. Y mae *amrywiaeth* i'w weled
 yng waith y greadigaeth i gyd ac yng waith *rhag-*
luniaeth hefyd. Y mae doethineb a *daioni* mawr yn
 hynny pe gallem ni ei iawn ystyried, a'i ganfod.—
 Ond pwys a all ganfod hynny yn eglur yn y stâd
 bresennol? Etto, ni a allwn ei gredu, am y *gwyddom*
 mae gwaith Bod doeth ac anfeidrol dda ydyw.

Y mae ein *cyflwr* a'n *dyledswyddau* ni yn amlwg, — a gorchymynion Duw a'i ffyddlon addewidion, wedi eu cyhoeddi i'r holl bobl. Llafuria di am fod yn ddeiliad i'r addewidion a diogel a fyddi. — Ni wrthododd Crist neb erioed a ddaeth atto i geisio iachad i'w gorff neu enaid.

Yr un yw efe ddoe, a heddyw, ac yn dragwydd. Yr un mewn cariad a thosturi; yr un mewn gallu i achub pob enaid a ddel at Dduw trwyddo ef, yng *wir ddymuniad* ei galon, am ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.

Os clywi ar dy galon ymwadu, hynny yw, ymwrthod a phleserau pechod, ac ymroddi dy hun i ddysgu ac ymarfer a duwioldeb a'th *holl fryd*, ni fethu di byth o gyrraedd y gamp. Canys, y llin yn mygu ni's diffydd ar gorsen ysgig ni's tyrr, hyd oni ddygo efe allan farn i fuddugoliaeth. Ei swydd ef yw cadw yn fyw yr rhai oll a ymddiriedant yn tho.

Dere atto, dysg ganddo, ymrwyma i fod yn wasiddo, efe a esmwytha arnat, rhydd orphwysfa i dy enaid! Efe faddeu dy holl bechod. — Efe a'th ylch di yn ei waed ei hun. — Efe a'th gymmer di yn ei gol, cei orphwys yn ei fynwes, trwy *ffydd*, hyd oni ddelo'r amser i ti fyned atto i'r nefoedd, a'i weled ef megis ac y mae. — Yn dy wendid fe'th nertha; yn dy glefyd fe'th gysura; yn angau fe'th gynnal; yn y farn fe a'th arddel, fe'th gyflawnha, ac a'th ogonedda. Pan y f'o wynebau dy frodyr annuwiol yn casglu parddu, a'u cluniau yn crynu, a'u calon yn llewygu, a Christ yn eu barnu i'r poenau tragicwyddol am iddynt ei wrthod: tithau, os derbyni, a fyddi'r pryd hynny gyd â'th Arglwydd mewn diogelwch.

Tyred

Tyred bechadur at dy Brynwr, na chloffa yn nhwy rhwng dau feddwl. Derbyn gyngor ac addewid Duw yn *Esay* lv. 6. a *Diar.* viii. 17. a *Jer.* xxix. 13.

Ond y mae llawer o bembleth meddyliau, o babil yn codi yn dy ben di. Ond gad heibio feddyliau ofer. Maglau Satan ydynt. Gochel ymdroi ynthynt fel oen mewn dyrysni, rhag i ti farw yno.

Disgwyl wrth Dduw yn ffodd ei ras, a tharo allan gyd â'r gwynt a'r llanw. Ymwrola, â'r Arglwydd, yn ol ei addewid rasol, a fydd gydâ thi. Os na thyccia'r ystyriaethau hyn a'r cyffelyb, i'th wneuthur yn ufudd i Dduw ar air a gweithred, nid oes gennys ddim mwy i osod o'th flaen, ond troi at Dduw i achwyn i mi wneuthur fy ngorau i'th gymmell i droi atto. Ond ni fynnit ti wrando arnaf. Bydded dy waed di, gan hynny, ar dy ben dy hun.

Yr wyf fi yn troi at y faint, a hwy, ysgatfydd, a wrandawant. — O frodyr anwyl, wrthych chwithau y dywed Duw hefyd, **Gweithiwrh allan eich iechydwrhaeth eich hunain gyd âg ofn a dychryn.** Yr ydych chwirthau etto yn yr anialwch; etto mewn cnawd; etto o fewn cyrraedd piccellau Satan, **Gwrandewch air y cyngor.** Bwriwch ymaith yn llwyr weithredoedd y tywyllwch. Na fydd i chwi gyfeillach â hwynt, yn gymaint ag i chwi ddiosg yr hen ddyn, mewn *mesur*, a gwisgo am danoch yr Arglwydd Iesu Grift. **Gwifgwch holl arfogaeth Duw.** Gobaith gryf trwy ras o gyrraedd pen eich taith. **Gwirionedd yn y dyn oddi mewn.** Ffydd ddiffuant yn addewidion y Cyfammod newydd, na chaiff un gelyn, nag offeryn, lwyddo yn eich erbyn tra byddoch chwi yn *glynw* wrth eich Harglwydd.

Yn

Yn nesaf, cymmerwch lawn afael ar gleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw Gair Duw, gan ei wyntio ef ar bob achos yn ol esampl Crist. Er hynny nag ymdditiedwch ynnoch eich hunain yn eich doethineb, eich gofal, na'ch nerth eich hunain, eithr ymnerthwch yn y gras sydd yng Ghrist Iesu, yr hwn a berfeithia ei nerth mawr yn eich gwendid chwi ar bob achos cyfion.

Am hyn gweddiwch yn ddibaid, a phob rhyw weddi a deisfyd yn yr Yspryd, sef, saeth weddiau byrron a gwreslog, trwy gydol yr ymdrech, yn erbyn deniaith y byd, chwantau'r cnawd a rhythrau Satan. Gwrandawr gweddi yw Duw.

Cynhyddwch mewn pob gras, a phob dawn nefol. Chwanegwch at eich ffydd, rinwedd, a gwybodaeth, beth yw pur a pherffaith ewyllys Duw.

Gofalwch ar fyw yn sobr, mewn *syniadau oddi mewn*, yn gystal ac mewn bwydydd, a diodydd, a gwisgoedd oddi allan. Yn gyfawn tu ag at bawb ar air a gweithred, gan wneuthur i bob dyn megis y dymunech chwi iddynt hwy i wneuthur i chwirthau, mewn gwirionedd ac uniondeb. Gwisgwch am danoch ymysgaroedd trugareddau. Rhodiwch mewn cariad. Cofiwch mai corph heb enaid, yw crefydd heb gariad. Gwae a fyddo ar y fath liw o grefydd. Darllen i *Cor.* xiii. Nid all y di-gariad byth weled Duw y cariad er ei gysur. Cerwch eich gilydd gan hynny o galon bur yn helaeth. Cofiwch y dylai eich ffydd chwi weithio bob amser tuag at bob dyn, trwy gariad. Edrychwch ar yr Iesu pa fodd yr ymddygodd efe ar bob achos, ym mhob man, tu ag at bob math o ddynion, a dilynwch ei ol ef. Efe a adawodd i ni siampl, medd *Pearl*,

Pedr, fel y canlynem ei ol ef. i *Pedr* ii. 21. "Yr hwn, medd *Ioan*, a ddywaid ei fod yn aros yntho ef, a ddylai yntau, felly radio megis y rhodiodd ese. i *Ioan* ii. 6.

Yr hyn a ddywaid *Paul* am dano ei hun a'r apostolion eraill, (*Eph.* i. 4.) a ddywedaf finnau wrthych chwi, O Grifftianogion, sef i Dduw o'r dechreuad i'ch ethol chwi yng Ghrist, neu i fwynhau bendithion teyrnas Grifft. I beth? Fel y byddech yn sanctaidd ac yn ddisfeius ger ei fron ef mewn cariad. Chwi a alwyd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef; rhodiwch fel plant y goleuni. Pan yr oeddech dan arswyd tarannau mynydd *Sinai*, heb ddisgwyl dim ond marwolaeth *bob cam* ac heb alleli gweled ffordd i ddiangc mewn *un modd*, wele, lais megis o'r nef yn dywedyd, "Cred yn yr Arglwydd Iesu Crist a chadwediig y fyddi."

Pa mor hyfryd i'th enaid oedd y fath newydd! pa mor ewillysgar oeddit di y pryd hynny i ufuddhau i Grifft yma mhab peth a geisiai efe gennyt, os byddai iddo yn unig ond cadw dy enaid rhag uffern! Ond oeddid yn ei dderbyn ef yn ei *dair swydd*, ac yn bur awyddus i ddysgu ganddo fel dy Athro; ufuddhau iddo fel dy Frenin; a hyderu yn haeddiant ei Aberth efe fel dy Offeiriad! Diammau'r addefi hyn oll os ydwyd ti Grifftion diffuant. Yr wyf finnau yn dywedyd wrthyt, "Megis y derbyniaist Grifft yr Arglwydd, rhodia yntho." *Col.* ii. 6.

Na wna ddarbod dros y cnawd er mwyn cyflawni ei chwantau ef. Na char y byd, sef, arferion dynion ofer, golud anwadal, anrhydedd siommedig, a phlefer golygus o fwytta ac yfed yn dda, gwisgo'n wych, a byw yn llawen, yn ddifyr a diofal. Nid dyna'r ffordd i'r nefoedd, eithr i uffern ar dy ben. Gochel hi.

Mewn

Mewn gair, os wyt Gristion, yr ydwyt yn caru Crist yn dy galon. Ac os wyt ti yn caru Crist yn gywir, diammau fod deddf o *ddiolchgarwch* yn dy rwymo i gadw ei orchymynion ef. Y mae cariad Crist yn dy *gymhell* i fyw i'r hwn a fu farw drosot, megis y dywaid *Paul* am dano ei hun a'r lleill o'r Cristianogion. Cydm. 2 Cor. v. 14, 15. a'r Rhuf. xiv. 7, 8.

Y mae hyn yn sier yn wir meddi, tra byddo Haul Cyflawnder yn tywynu ar fy enaid. Ond, nid ydyw hi felly gyd a mi bob amser. Yr wyf yn rhodio yn fynych mewn tywyllwch, ac heb lewyrch arnaf.

Diammau dy fod; ac y mae yn rhaid i hynny gael ei le, fel chwant bwyd, a syched, anwyd a lludedd, ynghyd ag aneirif o ddiffygion eraill yn y stâd ammherffaith hon. Pa mor segur a diffrywth a fyddai dynion o bob graddau, oni b'ai *eisiau*. Eisiau hyn a'r llall sydd yn cyffro dynion i lafurio yn yr amrywiol orchwylion perthynol i'r bywyd hwn. Ac y mae Duw wedi trefnyd yn dra doeth i ddynion gyrraedd mesur gweddol o gysuron y bywyd hwn, trwy lafurio. Edr. Diar. x. 4, 5. xiii. 4. Eph. iv. 28. 1 Thes. iv. 11. a'r 2 Thes. iii. 11, 12.

Yn yr un flunud, pa mor ddisraw a diofal y caid gweled Cristianogion yn byw, oni b'ai fod Duw yn eu gadael i deimlo eisiau goleuni, cynhaliaeth a chysur, ar brydiau.

Ac er eu bod yn teimlo eisiau'r enaid mewn rhyw fesur *gwan*, y mae eisiau'r corph yn fwy *teimladwy* ac yn llefain yn daearach am ei dorri. Y mae'r moddion *gerllaw*. Y maent mewn *golwg*, ac y mae'r eisiau yn swmblu am gael ei ddiwallu. Yn y dra-

y drafferth hon am lawer o bethau, y mae'r Cristion yn cyfarfod â miloedd o demptasiynau i esgeuluso'r un peth angenrheidiol. Nid oes gennysf le i ymhelaethu. Mi a adawaf i'th brofiad di, Cristion, i gyflawni y diffyg hwn.

Yn unig, cofia fod gwrthddrychau crefydd allan o'th olwg; llawenydd y nef a phoenau usfern, uwchlaw dy amgyffred; a'th chwant i fyw yma yn eu gosod ymhell, a thrwy hynny y maent yn colli eu heffaith ar dy feddwl. Am hynny rhaid i ti, *trwy ddwy ystyriaeth*, eu galw nhwy yn fynych ger dy fron; llefain am help yr Ysryd Glân i'w cadw ym meddylfryd dy galon, a'th nerthu i fyw trwy ffydd. Rhaid i ti fod yn ofalus a diwyd iawn i arfer *moddion gras* i'r diben i'th *gyffro* a'th *awchu*, i gyflawni holl ddyledswyddau crefydd, megis y dangosir i bob gradd a pherthynas o ddynion, yn y rhannau ymarferol o lythyrau St. *Paul*, a'r lleill o'r apostolion. Eu harfer, meddaf, yn ddiwyd i'r dibenion *byn* ac nid i ymorphwys ynddynt nag *arnynt chwaith*. Fel hyn gweithiwr allan eich iechyd-wriaeth eich hunain gyd âg ofn a dychryn, rhag, wedi i chwi ddechreu yn yr *Ysryd*, ddiwedi o honoch yn y *cnaud*, ac i eraill ddwyn eich coron chwi. *Ystyria* lythyrau Crist at eglwys *Afia*, a Duw a roddo i ti ddeall dda. *Dat.* Pen. ii. a iii.

Y mae'r gwirioneddau pwysfawr a ddarllenaist di yma, yn ein dysgu ni,

1. I ryfeddu mawrygu a chofleidio y ffordd *rasol* a gymmerth Duw i achub dyn o'i drueni. Cofia mai Duw da a doeth a'i trefnodd heb gyngor, na help, na haeddiant dyn. Ymostwng, gan hynny, i'r drefn heb *ymddadlew*, a rhodia y ffordd heb *rwgnach*. A diwedd da f'o i ti.

2. Dysg-

2. Dysgwn i werthfawrogi gweinidogion *ffyddlon*, a gweinidogaeth *iachus*, Efengyl Crist. Gochelwn wrando ar yr athrawiaeth a bâr i ni gyfeiliorni oddi with eftiau'r gwirionedd ei hun, sef geirfau Duw.

Bechaduriaid, gwrandewch beth a ddywaid Duw wrthych yn ei air, ac yn eich cydwybodau trwy ei Ysbryd. Ufuddhewch iddo, os gellwch, ac oni ellwch, dywedwch wrtho am eich helpu, yn ol ei addewid. Disgwylwch wrth ei byrth ef. Gwrandewch ei air. Llefwch am ei fendith. Groesawwch argyhoeddiadau ac *ymrowch i ddiwygio*. Triwy'r *petbau* *byn* y mae Duw yn gweithio ar yr enaid. Ac onid yw rhybuddion *mynych*, ynghyd â che-ryddon, cynghorion a chyfarwyddiadau, yn llwyr angenrheidiol hefyd i'r seintiau goreu tra byddont yma.

Gwerthfawrogwn, gan hynny, y weinidogaeth gyhoeddus o'r Gair, ac o'r Swpper sanctaidd, fel *moddion* i'n cadw yn wresog mewn crefydd. Bendithiwn Dduw am ei ffyrdd doeth, a rhodiwn ynthynt. Y mae'r Brenin yn rhwym yn ei Rodfeydd, trwy rym ei rasol addewidion.

3. Dysgwn oddi yma weleddiwedd llwybrau gwirgam. Darllain *Diar.* i. o *Adn.* 10; hyd 32. a *Pen.* ii. a iii. hefyd *1 Cor.* vi. 9, 10. *Gal.* v. 19, 20, 21. *Dat.* xxi. 8. Ac o'r tu arall, gwelwn rodiad a diwedd dédwydd y *duwiol*. Ni chair o hono ef, yn fysgrell a diofal, eithr yn wresog yn yr Yspryd yn gwafanaethu'r Arglwydd. Ni waradwyddir mo hono, canys edrych y mae efe ar holl orchymynion yr Arglwydd yn ddilyfiant. Yn ei ystafell, yn ei deulu, ym mysg ei dylwyth, yn yr eglwys, yn ei faes, ac yn ei fasnach, ei ofal yw cadw cydwybod dda a di-rwystr tu ag at Dduw a dynion bob amser.

Ei

Ei amcan cyffon yw byw i'r Iesu yma, a chael byw, trwy'r Iesu, gyd â Duw yn y nef, wedi myned oddi yma. Y gwir dduwiol, meddaf, yr hwn sydd yn iawn ddeall crefydd Crist a welir fel hyn gyd â pharchedig ofn, yn ymdrechu i weithio allan ei iechydwriaeth ei hunan yn ol arfaeth a gorchymyn Duw.

Hwn a dderbyn ddiweddu ei ffydd a'i ymarfer yn iechydwriaeth idd ei enaid. Gwynfyd y dyn a wnelo hyn: efe a gaiff faint ym mhren y bywyd a'i dderbyn i mewn trwy'r pyrth i'r ddinas nefol, fel y tyfia Crist ei hun. *Dat.* xxii. 14, 16. Yna y sych Duw ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt; a marwolaeth ni bydd mwyach, na thrifwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach: o blegid y pethau cyntaf a aeth heibio. Ni chaiff yr ail farwolaeth awdurdod arnynt. *Edr. Dat.* ii. 11. a xxi. 4.

Yno, fy enaid, ni bydd dim tywyllwch, dim camsynied, dim culni enaid, na dim ymryson rhwng neb a'i gilydd. Ni bydd cenfigen yno yn un tynwes, na neb yn anfoddloni i'w le a'i gyflwr ei hun. Pawb a welant yno'n eglur mae o rydd ras Duw, trwy gyfryngdod yr anwyl Iesu, y daethant hwy i'r ddinas sanctaidd, am hynny i'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc ac i'r Oen y priodolant *holl glod* eu hiechydwriaeth.

Wrth edrych yn ol ar eu ffyrdd yn y glyn, ac ar eu hanneilyngdod, ac ammherffeithrwydd eu hufudd-dod *goreu*, rhyfeddu byth a wnant *drugaredd* Duw yn maddeu iddynt. Ni bydd yno neb, fy enaid, yn edrych ar Dduw yn dderbyniwr wyneb, canys pawb a welant yn amlwg mai'r *gwas da* yn unig a goronir, a'r *gwas drwg* a diog yn *unig*, a gon-

gondemnir. Mi archaf ar Dduw ar i ni gadw hynny yn waftad ar ein meddyliau, fel y byddom ddiargyoedd, a diniweid, yn blant difeius i Dduw, ynghanol cenhedlaeth ddrygionus a throfaus ym mhllith y rhai yr ydym yn disgleirio, megis goleuadau yn y byd, yn cynnal gair y bywyd yn ei burdeb.

Weithian, fy mrodyr, byddwch lawen yn yr Arglwydd. Ysgrifenu yr un pethau attoch, ac a *lafaraïs wrthych*, gennys fi yn wir nid yw flin, ac i chwithau y mae yn ddiogel. Od oes gan hynny ddim diddanwch yng Ghrist; od oes dim cysur cariad; od oes dim cymdeithas yr Yspryd; od oes dim ymysgaroedd a thosturiaethau; cyflawnwch fy llawenydd, fel y byddoch yn meddwl yr un peth, a'r un cariad gennych, yn gyttun, yn synied yr un peth; er gorfoedd i mi yn nydd Crist, na redes yn ofer, ac na chymmerais boen yn ofer.

A Duw yr heddwch a fyddo gyd â chwi oll.
Amen.

4 AP 54

T E R F Y N.